# HEMANS, FELICIA DOROTHEA (1793 - 1835), bardd



**Enw:** Felicia Dorothea Hemans
**Dyddiad geni:** 1793
**Dyddiad marw:** 1835
**Priod:** Alfred Hemans
**Rhiant:** George Browne
**Rhyw:** Benyw
**Galwedigaeth:** bardd
**Maes gweithgaredd:** Barddoniaeth
**Awdur:** Gwyn Jones

Ganwyd 25 Medi 1793 yn Lerpwl, merch George Browne, marsiandwr. Pan oedd yn saith oed symudodd ei theulu i Gwrych, gerllaw Abergele, sir Ddinbych. Bratiog fu ei haddysg, eithr darllennai gydag awch, ac mor eithriadol oedd ei chynnydd a'i datblygiad fel y cyhoeddwyd ei *Juvenile Poems*, 1808, pan nad oedd hi ond newydd gyrraedd ei 14 oed. Ni chafodd y caniadau hyn dderbyniad da eithr o hynny ymlaen ysgrifennodd a chyhoeddodd bron yn ddibaid. Priododd Capten Alfred Hemans yn 1812, ac erbyn 1818, y flwyddyn yr ymwahanasant, dygasai iddo bum mab. Oddigerth am un ysbaid byr bu'n byw yn Bronwylfa, gerllaw Llanelwy, o 1809 hyd 1825, yn nh ei mam. I'r cyfnod hwn y perthyn *The Domestic Affections and other Poems*, 1812; cyfieithiadau o waith y bardd Portugeaidd Camoens ac eraill, 1818; *The Sceptic*, 1820; *The Siege of Valencia*, 1823; *The Forest Sanctuary* a *Lays of Many Lands*, 1825. Chwaraewyd ei drama, *The Vespers of Palermo*, yn Covent Garden, Llundain, ym mis Rhagfyr 1823, a chyda mwy o lwyddiant yn Edinburgh y flwyddyn ddilynol. Yn 1825 croesodd dros afon Clwyd i Rhyllon ac yno yr ysgrifennodd *Dramatic Scene between Bronwylfa and Rhyllon*. Wedi i'w mam farw, ddwy flynedd yn ddiweddarach, aeth i Wavertree, gerllaw Lerpwl, i fyw. Yn 1831 aeth i Ddulyn i fyw; o hynny ymlaen ar destynau crefyddol, gan mwyaf, y canodd. Erbyn hyn torrodd ei hiechyd, na fuasai erioed yn dda, yn llwyr, a bu farw, yn Nulyn, ar 16 Mai 1835. Yr oedd o natur gariadus a thyner, ac yr oedd ei barddoniaeth yn dyner, yn llifo yn deleidiol ac yn rhwydd, ond nid oedd ynddi na chryfder na gwerth parhaol. Golygwyd ei gwaith casgledig gan Mrs. Hughes yn 1839 a gan W. M. Rossetti yn 1873.

## Awdur

**Yr Athro Gwyn Jones**, (1907 - 1999)

## Ffynonellau


H. F. Chorley, *Memorials of Mrs. Hemans with illustrations of her literary character from her private correspondence* (1836) (dwy gyfrol), 1836

Hughes, *Memoir of the Life and Writings of Mrs. Hemans. By her sister* (Philadelphia 1839)

Rossetti, *The Poetical Works of Mrs. Felicia Hemans* (Llundain 1873)

*Oxford Dictionary of National Biography*

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Felicia Hemans

## Delweddau

William Holl, William Edward West, Felicia Hemans

Edward Scriven, William Edward West, Felicia Hemans

Edward Robertson, Edward Smith, Felicia Hemans

LLGC: Felicia Hemans

Edward William Wyon, Felicia Hemans

Edward Scriven, Mrs. Hemans's mother

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 17397168

Wikidata: Q272537

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu